# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 5

NEWIDIADAU ERAILL I LYWODRAETH LEOL

*Mynychu cyfarfodydd o bell*

### 59 Mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell

(1) Mae adran 4 o Fesur 2011 (mynychu cyfarfodydd o bell) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (4), yn lle’r geiriau “o bell” hyd at y diwedd, rhodder “mangre’r cyfarfod yn llai na 30% o gyfanswm nifer yr aelodau sy’n bresennol yn y cyfarfod.”.

(3) Ar ôl is-adran (4), mewnosoder—

“(4A) Nid yw is-adran (4) yn atal awdurdod lleol rhag creu rheolau sefydlog sy’n ei gwneud yn ofynnol fod mwy na 30% o gyfanswm yr aelodau sy’n bresennol mewn cyfarfod yn mynychu mangre’r cyfarfod i sicrhau cworwm.”.